# Cylch Hunanwerthuso

GWASANAETH ADDYSG GWYNEDD

**2024 – 2025**

**Pwrpas**

Pwrpas y ddogfen hon yw gosod cyfeiriad ac egluro'r cylch hunanwerthuso yn yr Adran Addysg.

Mae datblygu diwylliant o hunanwerthuso parhaus yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr adran yn cyflawni ei phwrpas, sef ;

***"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"***

Mae'r Adran Addysg yn ymrwymedig i wella ein trefniadau hunanwerthuso ac yn chwilio am gyfleoedd yn barhaus i sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon.

**Egwyddorion**

Er mwyn sicrhau bod y broses yn effeithiol mae'r Adran Addysg wedi mabwysiadu'r egwyddorion canlynol;

***Cyd weithio***

Mae hunanwerthuso yn arwain at wella gwasanaethau pan fo'r holl ran ddeiliad allweddol yn cyfrannu at y broses, yn ymwybodol o'r canfyddiadau, ac yn gweithredu'n unol â hwy.

Mae gan yr Adran Addysg nifer o ran ddeiliad allweddol megis gwasanaethau allweddol ar draws y Cyngor, gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol megis GwE neu wasanaethau ar y cyd ag awdurdodau eraill megis y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Mae pob rhan ddeiliad allweddol yn ymrwymo i broses hunanwerthuso'r Adran Addysg gan gadw at ofynion cynllunio, monitro a gwerthuso cytunedig yn unol ag amserlen gytunedig.

**Agored a Gonest**

Mae hunanwerthuso effeithiol yn mynnu bod rhan ddeiliaid yn agored a gonest wrth iddynt adrodd a chyfrannu at y broses. Mewn absenoldeb data meintiol a thystiolaeth o gynnydd mewn rhai meysydd mae'n allweddol ein bod ni'n ymddiried mewn barn broffesiynol cyd weithwyr.

**Profiadau dysgwyr yn brif ffocws**

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd mae'n allweddol ein bod ni'n rhoi sylw i brofiadau dysgwyr drwy gydol y broses hunanwerthuso. Mae pob un o'n rhan ddeiliaid yn ystyried sut y mae'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar brofiadau ein dysgwyr a thrwy hynny gynnydd ein dysgwyr.

***Ceisio llais defnyddwyr gwasanaeth***

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd yr ydym yn ceisio barn ein dinasyddion ac yn edrych ar ein gwasanaethau drwy lygaid ein dinasyddion. Byddwn yn canfod barn disgyblion, rhieni, staff ysgolion a phenaethiaid yn rheolaidd gan sicrhau adborth iddynt ar ein canfyddiadau. Bydd y canfyddiadau'n bwydo cynlluniau gwella'r adran yn ôl y gofyn.

***Dylanwadu ar gynlluniau strategol yr Adran Addysg, gweddill y Cyngor a thu hwnt***


Lle bo'n briodol mae'r drefn hunanwerthuso'n ffurfio rhan allweddol o gynlluniau strategol yr Adran Addysg a gweddill y cyngor. Mae canfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu, lle bo'n briodol, yn bwydo ystyriaethau cynlluniau gwella adrannau eraill yn y cyngor a rhan ddeiliaid allweddol megis GwE.

***Dod i farn***

Lle bo modd ystyried mesuryddion neu ddata rheolaethol / perfformiad yn fesuradwy a bod modd nodi tueddiadau dros amser byddwn yn ceisio dod i farn a gwneud dyfarniadau yn seiliedig ar y farn honno.

## Sut mae Ffordd Gwynedd yn dylanwadu ar y drefn hunanwerthuso?

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd yr ydym yn cydnabod fod y ***meddylfryd*** tu ôl i unrhyw gyfundrefn neu wasanaeth yn gyrru ***perfformiad***. Yr ydym yn deall bod gwneud y pethau iawn yn arwain at wella ***systemau*** ac mae gwneud pethau'n well yn gwella ***perfformiad.***




Wrth hunanwerthuso mae'r Adran Addysg yn symud o feddwl traddodiadol tuag at Ffordd Gwynedd o feddwl.

Mae pob gwasanaeth yn cychwyn ar eu taith hunanwerthuso drwy ddeall *yr hyn sydd yn bwysig i bobl Gwynedd*. Maent yn adlewyrchu ar y ***galw sydd ar eu gwasanaeth*** ac yn adlewyrchu ar y galw sydd yn ychwanegu gwerth neu sydd yn adlewyrchu methiant.


Mae pob gwasanaeth yn ***diffinio eu pwrpas yn nhermau'r dinesydd***. Golyga hyn egluro'n gryno bwrpas yr uned a pha wasanaeth maen nhw'n ei ddarparu.

Mae gan bob gwasanaeth set o ***fesurau penodol*** ac y mae'r rhain yn mesur pa mor dda maen nhw'n cyflawni eu pwrpas. Bydd unrhyw wybodaeth arall sydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i redeg y gwasanaeth yn cael ei gyfeirio ato fel ***data rheolaethol***.

Mae'r Adran Addysg yn meithrin gweithlu sydd yn hyderus i ***gyflawni i bobl Gwynedd.*** *N*id ydym yn dymuno cael ein staff yn gweithio ar dasgau'n beirianyddol heb unrhyw ystyriaeth os yw'r hyn y mae nhw'n gyflawni'n gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd. Er mwyn galluogi ein gweithlu i wneud hynny mae pob gwasanaeth yn ***llunio egwyddorion gweithredu*** a fydd yn rhwystr i unigolion rhag dargyfeirio oddi wrth Ffordd Gwynedd a chreu risg i'r awdurdod.



## Y Cylch Hunanwerthuso




Nid yw hunanwerthuso'n ddiben ynddo ei hun. Dylid defnyddio'r wybodaeth o'r hunanwerthusiad i gynllunio ar gyfer gwelliannau ac i sicrhau proses gylchol reolaidd o fonitro, gwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae hon yn broses barhaus ac fe fydd pob un o'n rhan ddeiliaid yn ymrwymo iddi yn llwyr.

Mae'r cylch ei hun yn cwmpasu tri phrif ran.

**Gwerthuso**

Er yn broses barhaus fe fydd y Tîm Rheoli Addysg yn cynnal ymarfer blynyddol i hunanwerthuso cryfderau a meysydd sydd angen sylw. Bydd ystod eang o ffactorau'n bwydo'r hunanwerthuso blynyddol hwn gan gynnwys;

- Cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella
- Mesuryddion gwasanaethau unigol
- Data rheolaethol penodol
- Arolygon gan gyrff allanol
- Adroddiadau gan gyrff allanol
- Canlyniad prosesau craffu
- Trafodaeth a chanfyddiadau Aelod Cabinet Addysg
- Trafodaethau  a chanfyddiadau ein grwpiau strategol
- Holiaduron plant, rhieni, staff a phenaethiaid



Bydd adroddiad yn cael ei chyhoeddi ar ddiwedd yr ymarfer ar ffurf Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg.


**Monitro**

Fe fydd pob rhan ddeiliad allweddol yn monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwella'n barhaus gan adrodd yn ffurfiol yn chwarterol drwy drefn adrodd gydnabyddedig.

Bydd pob adran yn adrodd ar fesurau penodol yn fisol ac yn dyrchafu heriau penodol i sylw'r tîm rheoli addysg ar sail risg.

**Herio Perfformiad**

Fe fydd cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella a diffygion mewn mesurau penodol yn cael eu dyrchafu i sylw'r Aelod Cabinet Addysg a'r Prif Weithredwr ar sail risg drwy gyfarfod herio perfformiad misol.



Bydd y cyfarfodydd herio perfformiad yn gyfle i amlygu risgiau ac, os yn briodol, amlygu'r angen i addasu cynlluniau gwella neu addasu ein mesuryddion.

**Cynnydd Gwasanaethau a Gomisiynir**

Mae'r Adran Addysg yn comisiynu gwasanaethau megis gwasanaethau gwella ysgolion. Er bod cyfansoddiad a modelau rheoli'r gwasanaethau'n amrywio, mae'r disgwyliad ar wasanaethau a gomisiynir i fod yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella a mesurau penodol cytunedig.

Mae'n ddealladwy y gall bod amrywiaethau o ran dulliau monitro a gwerthuso. Fodd bynnag, mae'r disgwyliad o ran adrodd yn unol ag amserlen yr Adran Addysg yn gyson ac yn gymwys i bawb.

**Herio Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Fe fydd cynnydd yn erbyn prif brosiectau'r Adran Addysg yn cael eu trafod mewn Byrddau Prosiect gyda heriau'n cael eu dyrchafu at sylw'r Aelod Cabinet Addysg a'r Prif Weithredwr ar sail risg drwy Fwrdd Rhaglen dymhorol.

Dwywaith y flwyddyn, bydd yr Aelod Cabinet Addysg, y Prif Weithredwr, a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg yn cynnal sesiwn benodol i herio perfformiad a chynnydd y prosiectau yma'n benodol.

**Holiadur Blynyddol Gwasanaethau Addysg**

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae'r Adran Addysg yn deall pwysigrwydd edrych ar ein gwasanaethau a'u heffeithiolrwydd drwy lygaid y dinesydd. Er mwyn gwneud hyn, fe fydd yr adran yn cyhoeddi holiadur blynyddol a fydd yn ceisio barn disgyblion, rheini, staff a phenaethiaid ysgolion Gwynedd. Bydd canfyddiadau'r holiaduron yma'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ac yn sail, lle bo'n briodol,  i gynlluniau gwella ein gwasanaethau.

**Holiaduron Monitro**

Yn ychwanegol i'r holiadur blynyddol, bydd ein gwasanaethau'n monitro cynnydd yn erbyn eu mesurau penodol drwy holiaduron monitro misol. Fe fydd y rhain yn holiaduron byr a fydd yn gymorth i'n gwasanaethau ganfod barn a chael adborth rheolaidd ar berfformiad gwasanaethau.

## Cyfrifoldebau

Mae cyfrifoldeb ar bob rhan ddeiliad allweddol i fonitro a gwerthuso cynnydd gwasanaethau'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae rhai rolau penodol yn ysgwyddo cyfrifoldebau penodol ac yn sicrhau atebolrwydd ar bob lefel.

Y Pennaeth Addysg sydd yn sicrhau bod y gwerthusiad blynyddol yn cael ei gwblhau'n amserol ac yn gwirio cywirdeb a dilysrwydd unrhyw farnau a gyflwynir ynddo.

Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg sydd yn sicrhau bod monitro chwarterol yn cael ei gwblhau'n amserol ac yn gwirio unrhyw fesuryddion a gyflwynir.

Mae'r Aelod Cabinet Addysg a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am herio cynnydd yn erbyn mesuryddion yn fisol ynghyd â herio cynnydd yn erbyn prif brosiectau'r Adran Addysg.

Yn unol â chyfansoddiad yr endid a gomisiynir, y Pennaeth Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg sydd yn monitro a gwerthuso cynnydd ar ran yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth gwella ysgolion GwE.



**Model Gwerthuso a Monitro**

| Camau Gwerthuso a Monitro | Pwy? | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Gwerthuso Parhaus | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol |
| Monitro Parhaus | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Gwerthuso Blynyddol | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Pennaeth Addysg |
| Monitro Chwarterol – Herio Perfformiad | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Monitro Cynnydd Prif Brosiectau | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Holiadur Blynyddol Gwasanaethau Addysg | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | |
| Holiaduron Monitro Gwasanaethau Unigol | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | |

## Cynlluniau Gwella

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae'n allweddol ein bod yn ymddiried yn ein rheolwyr a'u bod yn cael rhyddid i gynllunio er mwyn cyflawni i bobl Gwynedd. Mae ***meddylfryd*** tu ôl i unrhyw gyfundrefn neu wasanaeth yn gyrru ***perfformiad. Mae*** gwneud y pethau iawn yn arwain at wella ***systemau*** ac mae gwneud pethau'n well yn gwella ***perfformiad.***

**Sut yr ydym yn meithrin y meddylfryd fydd yn gyrru perfformiad?**

Mae meithrin y meddylfryd cywir yn cychwyn drwy sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ceisio ei wella wir yn flaenoriaeth i bobl Gwynedd ac yn cael dylanwad ar ein pwrpas.

**Diffinio Pwrpas**

Mae pob gwasanaeth wedi diffinio eu pwrpas yn nhermau'r dinesydd. Golyga hyn egluro'n gryno bwrpas yr uned a pha wasanaeth maen nhw'n ei ddarparu. Mae'r pwrpas yn glir ar bob dogfen gynllunio ac yn ffordd o sicrhau bod cyflawni i bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud.

**Mesuryddion**

Mae gan bob gwasanaeth fesurau penodol sydd yn ffordd o fesur cynnydd yn erbyn y pwrpas. Mae'r cynnydd yn erbyn y mesurau yn cael ei fonitro'n fisol ac yn cael eu dyrchafu ar sail risg i gyfarfodydd herio perfformiad misol.



**Data Rheolaethol**

Nid yw data rheolaethol o reidrwydd yn mesur cynnydd yn erbyn pwrpas. Yr ydym yn defnyddio data rheolaethol fel ffynhonnell o wybodaeth arall sy'n ein helpu i redeg ein gwasanaethau'n well. Gall ein helpu i weld sut y gallwn wella ar y mesurau ac mae'n ein galluogi i fesur problem neu rwystr (sef rhywbeth sy'n ein stopio rhag gwella ar y mesurau).

**Gosod Blaenoriaethau Gwella**

Mae nifer o ystyriaethau i reolwyr wrth iddynt osod blaenoriaethau gwella. Os yw'r pwrpas a'r mesur wedi ei ddiffinio'n glir dylid cychwyn drwy ystyried yn ofalus a cheisio adnabod beth yw'r rhwystrau sydd yn ein hatal rhag cyrraedd y nod.

Mae pob rheolwr yn cychwyn drwy ddeall y system. Mae sawl ffordd wahanol o wneud hyn ond awgrymir bod pawb yn edrych yn ofalus ar y galw, gwerth pob cam mewn unrhyw drefn, ynghyd â llif unrhyw broses.

Dylid ystyried os yw'r blaenoriaethau'n mynd i wneud un o ddau beth, creu gwerth i'r dinesydd neu gefnogi eraill i wneud hynny. O fewn y gyfundrefn addysg fe fydd rhai yn cefnogi plant yn yr ysgolion neu'n cefnogi eraill i gefnogi'r plant. Os nad yw'r flaenoriaeth yn gwneud un o'r ddau beth yma, nid yw'n flaenoriaeth ddilys.

Yn olaf mae'n allweddol bod ein rheolwyr yn sicrhau perchnogaeth rhan ddeiliaid wrth gyflwyno unrhyw newid. Dylai unrhyw gynllun gwella adnabod rhan ddeiliaid allweddol ac amlygu sut y bydd unrhyw newid yn cael ei gyfleu iddynt.



## Creu Cynlluniau Gwella



**Cyfrifoldebau Rheolwyr**

Mae pob rheolwr yn sicrhau bod pwrpas y gwasanaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd y pwrpas yn weladwy ar gychwyn pob cynllun gwella. Er mwyn atgoffa pawb ohono a sicrhau ei fod yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud,  bydd pob gwasanaeth yn cynnwys pwrpas yr Adran Addysg a phwrpas ei gwasanaeth nhw ar bob dogfennaeth adrannol, bydd hyn yn cynnwys troedyn e-bost.

Mae pob rheolwr yn sicrhau bod mesuryddion addas wedi eu pennu ar gyfer y gwasanaeth a bod cynnydd yn erbyn y mesuryddion yma'n cael ei adolygu'n fisol.

Mae pob rheolwr yn ystyried unrhyw adroddiadau penodol, gyhoeddiadau, newid mewn deddfau, neu ddata rheolaethol, wrth lunio blaenoriaethau gwella.

Mae pob rheolwr yn ystyried adborth holiaduron blynyddol gwasanaethau addysg ynghyd ag unrhyw holiadur monitro gwasanaeth wrth ystyried blaenoriaethau gwella.

Mae pob rheolwr yn gosod hyd at dair blaenoriaeth wella ar gyfer gwasanaeth yn flynyddol. Fe all blaenoriaethau ymestyn yn hirach na blwyddyn ond mae disgwyl i bawb osod dyddiad cyflawni ar eu cyfer.

Mae pob rheolwr yn adrodd ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'n chwarterol. Mae unrhyw lithriad yn cael ei ddyrchafu i sylw'r drefn herio perfformiad ar sail risg.

Mae rheolwyr yn llunio eu cynlluniau gwella ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf hwylus iddyn nhw. Nid oes unrhyw reidrwydd i fod yn cyflwyno cynlluniau gwella manwl cam wrth gam ond fe all y Pennaeth Addysg ofyn i gael gweld cynllun o'r fath pe byddai diffyg cynnydd yn erbyn blaenoriaeth. Mae templed parod ar gael i'r rhai sydd yn dymuno ei ddilyn.

Mae gan pob rheolwr ymwybyddiaeth dda o gwestiynau allweddol sydd yn ymwneud â'i meysydd cyfrifoldeb. Mae rheolwyr yn cyflwyno tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau allweddol yma'n barhaus.

**Cyfrifoldebau'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg**

Mae Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg yn sicrhau amserlen flynyddol ar gyfer adolygu pwrpas a mesuryddion gan wirio fod pob rheolwr wedi ei chyflwyno ar amser.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg yn rhedeg adroddiad misol fydd yn amlygu'r mesuryddion y mae'r rheolwyr wedi eu nodi sydd mewn peryg o dan berfformio.

**Cyfrifoldebau'r Pennaeth Addysg**

Mae'r Pennaeth Addysg yn sicrhau bod pob rheolwr yn gosod blaenoriaethau gwella addas. Mae hefyd yn sicrhau bod rhesymeg gadarn pam y bu iddynt osod y blaenoriaethau. Mae pob rheolwr yn cyflwyno ei flaenoriaethau gwella i sylw'r tîm rheoli addysg ac mae cyfarfod blynyddol penodol i wirio blaenoriaethau.

Mae'r Pennaeth Addysg yn sicrhau bod adborth o holiaduron blynyddol gwasanaethau wedi derbyn sylw pob rheolwr.

Mae'r Pennaeth Addysg yn sicrhau bod pob rheolwr wedi ystyried unrhyw adroddiadau penodol, gyhoeddiadau, newid mewn deddfau neu ddata rheolaethol wrth lunio blaenoriaethau gwella.

Mae'r Pennaeth Addysg yn sicrhau bod pob rheolwr yn cyflwyno tystiolaeth yn erbyn cwestiynau allweddol yn eu meysydd arbenigedd yn barhaus. Mae hyn yn galluogi i'r  Pennaeth Addysg adolygu cynnydd yn erbyn y cwestiynau allweddol yn flynyddol.

**Trefn Ymarferol**

Mae disgyblaeth rheolwyr a rhan ddeiliaid allweddol yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau bod y cylch hunan wella'n effeithiol ac effeithlon. Os nad yw rheolwyr yn perchnogi'r drefn hunanwerthuso yna fe fydd y drefn yn aneffeithiol.

Er mwyn hyrwyddo perchnogaeth rheolwyr a rhan ddeiliaid allweddol mae'r Adran Addysg wedi datblygu system syml sydd yn cynnal y cylch hunanwerthuso. Mae'r system wedi ei chynllunio i fod yn gofyn am y lleiafswm posib o fewnbwn er mwyn ryddhau eu hamser i fod yn gwneud y pethau pwysig.

Mae'r system electroneg ar gael i reolwyr a rhan ddeiliaid allweddol ar unrhyw amser ac mae modd ei addasu ar unrhyw amser. Mae hyn yn hyrwyddo defnydd o'r system fel rhan bob dydd.

**Amserlen**

Amlygi'r isod amserlen flynyddol ofynion y drefn gynllunio ar gyfer gwella.

| Camau Llunio Cynllun Gwella | Pwy? | Pryd? |
|---|---|---|
| Adolygu Pwrpas | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Ionawr |
| Adolygu Mesuryddion | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Ionawr |
| Dadansoddi Holiaduron | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Chwefror |
| Dadansoddi adroddiadau penodol, gyhoeddiadau, newid mewn deddfau neu ddata rheolaethol. | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Chwefror |
| Adolygu'n derfynol gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol. | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Mawrth |
| Gosod Blaenoriaethau Gwella | Rheolwyr / Rhan ddeiliaid allweddol | Mawrth |
| Adolygu ac Awdurdodi Blaenoriaethau Gwell | Pennaeth Addysg | Mawrth |

## Gweithredu

Mae'r Adran Addysg yn arfogi ein staff i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion pobl Gwynedd ac yn eu hannog i adnabod datrysiadau. Er mwyn gwneud hyn, mae'r adran yn ymddiried yn ein rheolwyr, rhan ddeiliaid allweddol a staff ac y maen nhw'n deall bod yna atebolrwydd yn dod gyda hynny.

Mae gan ein rheolwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r gwaith ac yn gwybod beth sydd yn mynd ymlaen ac yn grymuso eu timau i gyfarch anghenion pobl Gwynedd drwy gael gwared ag unrhyw rwystrau.

Mae'r Adran Addysg yn annog ein rheolwyr i dreulio amser yn ein ysgolion er mwyn deall yn well sut y gellid gweithredu yn fwy effeithiol. Yn ogystal, mae'r adran yn annog rheolwyr i dreulio amser yn ein swyddfeydd yn arsylwi'r gweithlu'n cwblhau tasgau, hyn er mwyn dysgu sut y gellid cefnogi eraill i gefnogi anghenion ein plant.

**Cefnogaeth**

Darperir goruchwyliaeth i rheolwyr yr Adran Addysg gan y Pennaeth Addysg, un o'r Penaethiaid Cynorthwyol Addysg neu Uwch Reolwr Addysg. Ni ddarperir goruchwyliaeth i staff mewn gwasanaethau a gomisiynir, fodd bynnag, disgwylir i'r gwasanaethau fod a threfniadau cytunedig mewn lle.



## Datblygiad Proffesiynol

Mae'r Adran Addysg yn annog pob aelod o staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleodd dysgu a datblygu sydd ar gael iddynt. Mae dysgu a datblygu yn rhan allweddol o swydd pob un o fewn yr adran.

Yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd mae'r cyfrifoldeb i ddatblygu broffesiynol a chymryd mantais o gyfleoedd priodol yn disgyn ar yr unigolyn.

Mae gan bob aelod o staff fynediad at raglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr ac mae gan bob aelod o staff gofnod personol.

**Perfformiad Unigolion**

Er mwyn cynorthwyo perfformiad ac ymddygiadau unigolyn, mae angen i reolwyr llinell gytuno'r canlynol gydag aelod staff:

- Bod cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr ac aelodau staff i drafod perfformiad ac ymddygiadau yn digwydd.
- Sicrhau awyrgylch o ymddiriedaeth ac atebolrwydd.
- Arfogi unigolion i ystyried pa fesurau sy'n dangos perfformiad yn erbyn y pwrpas ac i berchnogi'r mesurau hynny a'u gwneud yn fesuradwy.
- Annog unigolion i arloesi, mentro a dysgu o brofiad er mwyn gwella perfformiad.
- Cadw cofnod o'r perfformiad.
- Asesu'r aelod staff yn erbyn y mesur perfformiad a'r ymddygiadau disgwyliedig.

Mae rheoli perfformiad yn ein cynorthwyo i gyrraedd nod y Cyngor, trwy gefnogi a gwella perfformiad staff a sicrhau bod ein staff yn cael eu datblygu i'w llawn botensial. Mae'r Cyngor wedi symud tuag at y pwyslais o gynnal cyfarfodydd gwerthuso parhaus yn hytrach nac un cyfarfod blynyddol. Nod hyn yw cynorthwyo gyda gwella ein perfformiad a chynhyrchiant a chynyddu ymgysylltiad o fewn timau.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd wedi eu selio ar sgyrsiau agored a chefnogol, yn rhoi adborth a thrafod y cynnydd tuag at y nod. Mae'r drefn gwerthuso yn hwyluso'r drafodaeth ar sut i wella perfformiad parhaus a datblygu'r aelod o staff.

Mae'r trefniadau yn cael eu cadw yn syml ac y maent yn rhan o reoli dydd i ddydd. Er hyn mae trefniadau penodol ar gyfer cychwyn pob blwyddyn er mwyn sicrhau fod blaenoriaethau'r adran yn cael eu hadlewyrchu mewn rhyw ffordd yn natblygiad proffesiynol a pherfformiad unigolion.

**Amserlen**

Amlygir isod amserlen flynyddol ofynion y drefn datblygu proffesiynol.

| Camau | Pwy? | Pryd? |
|---|---|---|
| Cyfarfod Adolygu Blynyddol efo Phenaethiaid Cynorthwyol ac Uwch Reolwyr | Pennaeth Addysg | Ebrill |
| Cyfarfod Adolygu Blynyddol Rheolwyr | Phenaethiaid Cynorthwyol ac Uwch Reolwyr | Ebrill |
| Cyfarfod Adolygu Blynyddol swyddogion | Rheolwyr | Ebrill |
| Adolygu blynyddol | Pawb | Parhaus |

**Cofnod**

Gofynnir i'r unigolyn sydd yn cael ei adolygu gadw cofnod o'r cyfarfod. Bydd y cofnod yn cynnwys;

- Beth sydd wedi gweithio'n dda o ran ei datblygiad proffesiynol ers y cyfarfod diwethaf.
- Beth sydd heb weithio'n dda a pham?
- O leiaf un flaenoriaeth sydd yn gysylltiedig â blaenoriaeth y gwasanaeth, neu'r cynnydd yn ei erbyn.
- Unrhyw hyfforddiant neu brofiadau y mae'r unigolyn am ei drefnu neu wedi ei drefnu i gefnogi ei ddatblygiad proffesiynol.